**Cyfarfod o Bwyllgor Cymru y BBC**

**Sgwâr Canolog y BBC Caerdydd**

# COFNODION

3ydd Gorffennaf 2025

## EITEMAU BUSNES

1. Cyflwyniad,  cofnodion cyfarfod blaenorol Pwyllgor Cymru
2. Adroddiad Cyfarwyddwr Cymru
3. Adroddiad y Farchnad
4. Adroddiad Cyfarwyddwr y Cenhedloedd
5. Gwleidyddiaeth yng Nghymru
6. Cynulleidfaoedd
7. Cyllid
8. Unrhyw fater arall a chau'r cyfarfod

**YN BRESENNOL**

Aelodau:

- Michael Plaut, Cyfarwyddwr Anweithredol (Aelod dros Gymru) (Cadeirydd)
- Michael Smyth, Cyfarwyddwr Anweithredol
- Rhuanedd Richards, Cyfarwyddwr, Cenhedloedd
- Rhys Evans, Pennaeth Materion Corfforaethol a Pholisi Cyhoeddus, BBC Cymru

Gyda:

- Michael Jochnowitz, Golygydd Comisiynu, Ffeithiol
- Mark Grinnell, Arweinydd Gweithredol (ysgrifennydd)
- Delyth Isaac, Pennaeth Newyddion, Cymru *(eitem 5)*
- Gareth Lewis, Golygydd Gwleidyddol, Cymru *(eitem 5)*
- Ric Bailey, Prif Gynghorydd Gwleidyddiaeth a Safonau Golygyddol *(eitem 5)*
- Rebecca Davis, Cynulleidfaoedd (*eitem* 6)
- Nia Morgan, Uwch Bartner Busnes Cyllid (*eitem* 7)

Ymddiheuriadau:

- Garmon Rhys, Cyfarwyddwr, Cymru

**COFNODION PWYLLGOR CYMRU Y BBC**

**13eg Mawrth 2025**

**1. Cyflwyniad, cofnodion cyfarfod blaenorol Pwyllgor Cymru**

1.1 Fe wnaeth y Cadeirydd longyfarch Cyfarwyddwr Cymru a Chyfarwyddwr y Cenhedloedd ar eu penodiadau newydd.

1.2 Croesawodd y Cadeirydd y Golygydd Comisiynu, Ffeithiol, i'r cyfarfod fel mynychwr rheolaidd o'r adran Gynnwys.

1.3 Rhoddodd y Pennaeth Materion Corfforaethol drosolwg o gyfarfod a gynhaliwyd yn y Senedd ym mhresenoldeb newyddiadurwyr ac arweinwyr golygyddol o'r adran Newyddion rhwydwaith ac yng Nghymru. Roedd yn cyd-fynd â diwrnod arbennig o allbwn a gynhaliwyd ar 6ed Mai, deuddeg mis cyn etholiad y Senedd.

1.4 Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad ar gyfarfodydd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd ers y pwyllgor blaenorol, gan gynnwys mynychu Pwyllgor Diwylliant y Senedd, a chwrdd â S4C, Boom Radio, a chyfarfod yn Nhŷ'r Arglwyddi.

1.5 Cymeradwywyd cofnodion y Pwyllgor blaenorol heb unrhyw wrthdaro.

**2. Adroddiad Cyfarwyddwr Cymru**

2.1 Diolchodd y Cyfarwyddwr i'r Pwyllgor am eu cefnogaeth yn ystod ei chyfnod fel Cyfarwyddwr Cymru ac yn ei rôl newydd fel Cyfarwyddwr y Cenhedloedd.

2.2 Clywodd y Pwyllgor drosolwg o'r cynnwys sydd wrthi'n cael ei gynhyrchu ac effaith yr allbwn cyfredol ar gynulleidfaoedd.

2.3 Lansiwyd tymor Merthyr BBC Cymru yn y pwyllgor blaenorol yng Ngholeg Merthyr, a chafodd ei gomisiynu i gyd-fynd â deucanmlwyddiant Castell Cyfarthfa. Roedd y tymor yn cynnwys allbwn radio rhwydwaith, teledu a digidol a phecynnau addysgol i ddisgyblion ysgol.

2.4 Nododd y Pwyllgor berfformiad cynulleidfaol sylweddol y ddrama *Death Valley* gyda Timothy Spall a Gwyneth Keyworth yng Nghymru, ar y rhwydwaith a dramor drwy Brit-Box.

2.5 Mae'r gyfres gomedi *Mammoth 2* wrthi'n cael ei chynhyrchu yn Stiwdios Porth y Rhath yng Nghaerdydd.

2.6 Mae'r gyfres ddrama hirhoedlog *Casualty* i fynd i dendr a bydd portread o Gymru yn un o ofynion y *Casualty* newydd.

2.7 Nododd y Pwyllgor berfformiad yr arlwy Chwaraeon ar BBC Cymru ynghyd â Newyddion a'r Gerddorfa Gymreig.

2.8 Cymeradwyodd y Cyfarwyddwr Adolygiad Diwylliant y BBC a nododd ei bwriad i roi camau gweithredu'r adolygiad ar waith ar draws adran y Cenhedloedd. Adolygodd y Pwyllgor y data o arolwg staff y BBC a thrafodwyd sut roedden nhw'n berthnasol i Gymru.

2.9 Ceir cynllun arfaethedig i roi mwy o amlygrwydd i gynnwys S4C ar BBC iPlayer. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno i'w drafod ym Mhwyllgor Gweithredol y BBC.

2.10 Mae deuddeg aelod o staff wedi'u penodi'n llysgenhadon ar gyfer Proses Siarter y BBC a fydd yn arwain nifer o weithdai ar gyfer ymgysylltu â staff a rhanddeiliaid yn ystod y broses Adnewyddu'r Siarter.

2.11 Nododd y Pwyllgor ddiwedd hyfforddiant gorfodol i bob aelod o staff ym maes AI Cynhyrchiol. Mae nifer o gynlluniau AI peilot ar droed yn BBC Cymru.

2.12 Mae'r BBC wedi cyhoeddi canllawiau golygyddol diwygiedig a bydd hyfforddiant i staff golygyddol.

2.13 Nododd y Pwyllgor gynlluniau ar gyfer rhaglenni'r dyfodol, gan gynnwys rhaglen ddogfen am bêl-droed merched yng Nghymru, *SOS Extreme Rescues,* a thudalen fyw adeg gig Oasis yn Stadiwm Principality ym mis Gorffennaf.

2.14 Byddai'r Pwyllgor nesaf yn cynnwys crynodeb o waith a pherfformiad Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC.

**3. Adroddiad y Farchnad**

3.1 Nododd y Pwyllgor bapur adroddiad y farchnad.

3.2 Nododd y Pwyllgor y trefniadau newydd ar gyfer gwrandawyr o ran cynnwys y Cenhedloedd dramor, a fydd nawr yn gallu gwrando drwy BBC.com pan na fydd BBC Sounds ar gael mwyach.

3.3 Byddai'r Cadeirydd yn cynnal cyfarfodydd yn ymwneud a'r Sector Greadigol yng Nghymru a Gorllewin Lloegr.

**4. Adroddiad Cyfarwyddwr y Cenhedloedd**

4.1 Diolchodd y Cyfarwyddwr i'r Pwyllgor am eu cefnogaeth yn ei rôl newydd ac amlinellodd ei blaenoriaethau a oedd wedi'u cyfathrebu i dimau'r Cenhedloedd, gan

gynnwys cyflawni amcanion; effaith ar y gynulleidfa; adnewyddu'r Siarter a gwelliannau diwylliannol.

4.2 Byddai gwaith i ddatblygu'r berthynas waith gref rhwng adrannau Newyddion a'r Cenhedloedd yn y BBC.

4.3 Mae'r BBC bellach wedi ymrwymo i fynd y tu hwnt i'r trothwyon rheoleiddio a osodwyd gan OFCOM mewn perthynas â meini prawf cynhyrchu rhanbarthol. Mae canllawiau newydd i gynhyrchwyr annibynnol ledled y DU wedi'u cyhoeddi i adlewyrchu hyn.

4.4 Byddai gwaith y Model Prynu rhwng yr adrannau Cynnwys a'r Cenhedloedd yn cael ei ddatblygu.

**5. Gwleidyddiaeth yng Nghymru**

5.1 Clywodd y Pwyllgor drosolwg o'r gwaith cynllunio ar gyfer arlwy etholiad 2026 yng Nghymru.

5.2 Byddai diweddariad am wleidyddiaeth yn y cyfnod yn arwain at yr etholiad yn eitem sefydlog ym Mhwyllgor Cymru.

5.3 Byddai Pwyllgor Cymru yn adolygu'r fersiwn nesaf o'r canllawiau etholiadol cyn eu cyhoeddi.

**6. Cynulleidfaoedd**

6.1 Adolygodd y Pwyllgor y ffigurau cynulleidfaol diweddaraf a oedd yn berthnasol i Gymru.

**7. Cyllid**

7.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad cyllid diweddaraf a'r rhagolygon yn ymwneud â BBC Cymru.

**8. Unrhyw fater arall**

8.1 Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Pwyllgor ac i bawb a gyfrannodd at y cyfarfod.

8.2 Byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym Mangor ym mis Tachwedd 2025.

8.3 Nid oedd unrhyw fater arall yn codi.